**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar ei 'Ymchwiliad i Lifogydd yng Nghymru' gan Jane Davidson AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

Ar hyn o bryd mae un o bob chwe eiddo yng Nghymru yn wynebu perygl llifogydd. Mae 580,000 o bobl ledled Cymru yn byw ac yn gweithio mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, ac er bod llawer o'r cymunedau yn ymwybodol o'r perygl ac yn barod ar gyfer achosion o lifogydd, nid yw hynny'n wir am lawer mwy. Rwyf yn ymwybodol y byddwn yn wynebu mwy o berygl o lifogydd ledled Cymru wrth i'n hinsawdd newid, gyda lefelau'r môr yn codi a thywydd mwy garw a glawiad dwysach. Wrth i'r peryglon gynyddu felly rhaid hefyd i'n hymwybyddiaeth gynyddu.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cyd-fynd yn agos â'n cyfeiriad polisi cyfredol ac mae'n bleser gennyf dderbyn y rhan fwyaf ohonynt yn eu cyfanrwydd. Mae angen ystyried rhai eraill ymhellach ond cefnogaf fwriad y camau gweithredu arfaethedig a chredaf y dylid cymryd camau i sicrhau'r canlyniad a fwriedir.

Drwy gynnwys y cyhoedd yn ei ymchwiliad a siarad â dioddefwyr llifogydd cafodd y Pwyllgor Cynaliadwy wybodaeth bwysig am y problemau a wynebwn. Nodaf i'r Pwyllgor ddweud yn yr adroddiad mai'r neges allweddol a gafodd yn ystod yr ymchwiliad oedd bod angen dybryd am eglurder o ran llinellau cyfrifoldeb am lifogydd a chysondeb wrth weithredu. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i'w gyflawni.

Nod y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yw rhoi eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan nodi ein polisïau a'n hamcanion, ac yn gosod dyletswydd debyg ar awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi strategaethau lleol ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae'n rhaid i'r strategaethau hyn nodi beth yw'r peryglon, sut y bwriadwn eu rheoli, a phwy sy'n gyfrifol amdanynt.

Ac eto mae'n rhaid i ni fynd ymhellach na hyn. Rwyf eisoes yn siarad ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â phosibilrwydd o gael un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar berygl llifogydd, a byddaf hefyd yn siarad â'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol ynglŷn â'r ffordd y gallem ymestyn ei rôl i Gymru o bosibl. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol a grwpiau cymunedol i ddod o hyd i'r ffordd orau o gyfleu'r peryglon a wynebwn yng Nghymru a'r camau gweithredu y gallwn oll eu cymryd i'w rheoli.

Dywedodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn yr adroddiad na ddylai'r cyfrifoldeb am lifogydd fod ar y Llywodraeth yn unig, ond y gall pawb gymryd cyfrifoldeb ac y dylent wneud hynny. Mae hyn yn bwysig iawn. Yn y blynyddoedd i ddod, wrth i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi a'i gweithredu, byddwn yn ceisio rhoi pŵer i bobl ymgymryd â chyfrifoldeb. Ni allwn ddileu'r perygl

llifogydd a wynebwn yng Nghymru, ond gyda'n gilydd gallwn ei leihau a gwella'r ffordd rydym yn paratoi ar gyfer achosion o lifogydd, yn ymateb iddynt ac yn adfer ar eu hôl.

Rwyf wedi nodi fy ymatebion i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**1. bod llywodraeth Cymru yn nodi ac yn ariannu asiantaeth / sefydliad i ddod yn bwynt cyswllt unigol neu 'siop un stop' am bob ymholiad ynglŷn ag achosion o lifogydd a chyngor ar lifogydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf yn ymwybodol bod pryderon ynglŷn â diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ers peth amser.

Nod y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yw rhoi eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau i'r awdurdodau sy'n rheoli risg ac i'r cyhoedd. Fel y corff sy'n gyfrifol am benderfynu ar y blaenoriaethau strategol ar gyfer polisi a buddsoddi yn y maes hwn, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan nodi ein nodau a'n hamcanion.

Nodir y cynnwys gofynnol ar gyfer y strategaeth honno yng nghymal 8 o'r Mesur ac roedd yn cynnwys gofyniad i fanylu ar awdurdodau rheoli risg yng Nghymru, eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

Mae'r gwaith o weithredu'r strategaeth, a rheoli'r risgiau, yn gyfrifoldeb ar yr awdurdodau rheoli risg gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol, Byrddau Draenio Mewnol a chwmnïau dŵr. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol, sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am lifogydd oherwydd dŵr wyneb a dŵr daear yn ychwanegol at eu cyfrifoldebau presennol am gyrsiau dŵr cyffredin, baratoi strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol y nodir eu cynnwys gofynnol yng nghymal 10 o'r Mesur.

Mae'n ofyniad i strategaethau lleol gynnwys manylion pob un o'r awdurdodau rheoli risg sy'n gweithredu yn yr ardal, a chynnwys manylion eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

O baratoi'r dogfennau hyn dylai fod yn haws i bobl nodi pa awdurdodau rheoli risg sy'n gyfrifol am y perygl llifogydd a wynebant a manylion ynglŷn â'r camau a gymerir i'w rheoli.

Ochr yn ochr â hyn rwyf wedi bod yn trafod ag Asiantaeth yr Amgylchedd sut y gellir datblygu un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar berygl llifogydd.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi symud i system rhybuddion am lifogydd "eithrio", lle caiff eiddo sy'n wynebu perygl llifogydd o afonydd neu'r môr ei gofrestru'n awtomataidd i gael rhybuddion am lifogydd. Mae hwn yn gam bras ymlaen a gobeithiwn adeiladu arno yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Cyfyd rhai costau ac arbedion effeithlonrwydd posibl o weithredu'r argymhelliad hwn. Mae cael darlun clir o'r costau yn rhan allweddol o weithredu ar yr argymhelliad hwn a byddai penderfyniad terfynol i weithredu yn cael ei lywio gan y costau hynny, y byddai angen eu talu o'r cyllidebau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**2. bod y Gweinidog yn gosod gofyniad ar Asiantaeth yr Amgylchedd i ymgysylltu â'r gymuned wrth iddi ddatblygu mapiau llifogydd newydd a chyflwyno tystiolaeth ynglŷn â sut y defnyddir y wybodaeth hon.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ymgynghori ar bob un o'n polisïau ac mae'n disgwyl i'r un safonau gael eu cynnal gan y cyrff a noddir gennym. Mae ymgysylltu â chymunedau yn agwedd allweddol ar y dull o reoli perygl llifogydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog pob awdurdod sy'n rheoli risg i'w fabwysiadu. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd rydym yn rhyddhau arian Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweithredu ddangos ymgysylltu cadarn â chymunedau fel rhan o'u prosiectau. Mae hyn nid yn unig yn rhoi gwybodaeth werthfawr i awdurdodau rheoli risg, mae'n codi ymwybyddiaeth cymunedau o'r risgiau sef un o'r canlyniadau a ddymunir yn Strategaeth Amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad.

Bydd pwysigrwydd ymgysylltu â chymunedau yn un o ofynion penodol y strategaeth genedlaethol newydd.

Mae mapiau peryglon llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddaru wrth i well gwybodaeth ddod i law. Hyderaf y bydd yr Asiantaeth yn cytuno i weithredu'r argymhelliad hwn fel rhan o'r ffordd y mae'n datblygu ac yn ymgynghori ar faterion rheoli peryglon llifogydd cyn i'r strategaeth gael ei rhoi ar waith.

Trafodaf y mater hwn ymhellach gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn fy nghyfarfod nesaf â hi.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Bydd cost ymgysylltu â chymunedau yn rhan graidd o brosiectau a chaiff ei thynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**3. bod y Gweinidog yn ymchwilio i'r cyfle i sefydlu Byrddau Draenio Mewnol ar sail Cymru gyfan.**

**Ymateb: Gwrthod**

Sefydlwyd Byrddau Draenio Mewnol ar gyfer ardaloedd o iseldir ar wahân lle mae anghenion draenio arbennig, a elwir yn ddosbarthau draenio. Ceir tri Bwrdd Draenio Mewnol yng Nghymru ar hyn o bryd ac 11 o ddosbarthau draenio eraill y mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu fel Bwrdd iddynt ac yn eu gweinyddu ar y sail honno.

Ein polisi yw bod awdurdodau lleol yn arwain o ran materion perygl llifogydd lleol ac mae gan Fyrddau Draenio Lleol lawer o wybodaeth werthfawr i'w chynnig yn hynny o beth, fodd bynnag, ni fyddai'n ddoeth o reidrwydd i sefydlu Byrddau Draenio Mewnol ledled Cymru, gan fod eu cylch gwaith yn aml yn arbenigol. Fodd bynnag, mae gwerth amlwg mewn cynnwys cymunedau lleol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a byddaf yn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn fy strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Mae Byrddau Draenio Mewnol yn chwarae rhan bwysig o ran rheoli perygl llifogydd lleol ac rwyf yn awyddus i sicrhau bod eu profiad a'u harbenigedd yn cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu cynlluniau a dulliau o reoli perygl llifogydd yn lleol. Mae'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn cynnwys dyletswydd i awdurdodau rheoli risg gydweithredu gan gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu iddynt rannu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys Byrddau Draenio Mewnol.

Rwyf hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu deddfwriaeth bellach a fydd yn ei gwneud yn haws i newid maint, siâp a strwythur Byrddau Draenio Mewnol yn y dyfodol, ac mewn ymateb i anghenion lleol. Bydd y ddarpariaeth hon yn fy ngalluogi i ystyried sut y gallwn wella'r defnydd o Fyrddau Draenio Mewnol yng Nghymru yn y dyfodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gwrthodir yr argymhelliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**4. bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn diweddaru ei strategaeth gyfathrebu, ar ôl cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn nodi’n glir rôl yr Asiantaeth, sefydliadau cyhoeddus a sefydliadu eraill â diddordeb o ran ymgynghori cyhoeddus.**

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Rwyf wedi ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd yn tynnu ei sylw at yr argymhelliad hwn. Gwn fod hwn yn fater y mae'n ei gymryd o ddifrif fel y gwelwyd yn ei sylwadau pan aeth gerbron y Pwyllgor.

Cytunaf y bydd datblygu camau penodol yn helpu'r boblogaeth gyffredinol i ddeall perygl llifogydd yn well.

O ran gwasanaeth Llinell Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y nodwch yn eich adroddiad, mae hwn wedi cael ei newid yn ddiweddar o fod yn wasanaeth "dewis bod yn rhan" i wasanaeth "dewis peidio bod yn rhan". Mae'n cwmpasu 92,000 eiddo yng Nghymru ar hyn o bryd lle ceir perygl lifogydd. Nodir yn glir eisoes ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd ac yn ei deunyddiau y darperir y gwasanaeth i'r rhai sy'n wynebu perygl llifogydd o afonydd a'r môr, a bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i egluro ei gwmpas ymhellach.

Yn unol â'n cais mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes wedi dechrau paratoi strategaeth fawr i godi ymwybyddiaeth wedi'i hanelu at y cymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd o afonydd a'r môr.

**Goblygiadau Ariannol:** Mae hwn yn rhan graidd o waith Asiantaeth yr Amgylchedd a chaiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**5. bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r ymatebwyr cyntaf a'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i nodi cyfres o opsiynau ar gyfer ymateb i achosion o lifogydd.**

**6. bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi canllawiau i ymatebwyr cyntaf ynglŷn â sut i weithredu opsiynau ymateb.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae llifogydd bob amser yn brofiad ofnadwy i'r rhai yr effeithir arnynt ac mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau bod y rhai sy'n ymateb yn cael yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud eu gwaith yn iawn.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yn y pedwar Fforwm Cymru Gydnerth Lleol yw mai'r heddlu fel arfer sy'n arwain yr ymateb amlasiantaethol lle mae Grŵp Cydlynu Strategol wedi'i sefydlu. Argymhellwyd hyn gan Syr Michael Pitt yn ei adolygiad o'r llifogydd yn Lloegr yn 2007.

Argymhellodd Adolygiad Pitt hefyd y dylai ymatebwyr asesu effeithiolrwydd eu cyfleusterau ymateb brys ac ymgymryd ag unrhyw welliannau angenrheidiol. Mae'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd, sy'n cynnwys prif swyddogion y gwasanaethau brys a'r fyddin yng Nghymru, wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddechrau prosiect i sefydlu tair Canolfan Gydlynu Strategol benodol mewn lleoliadau allweddol ledled Cymru. Ariennir y prosiect yn rhannol drwy grant gan y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol ac yn rhannol gan bedwar Awdurdod yr Heddlu. Bydd y Canolfannau yn darparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ymatebwyr er mwyn sicrhau adnoddau ymateb amlasiantaethol effeithiol. Byddant yn cael eu cysylltu â'i gilydd ac â Chanolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gwella cynllunio at argyfwng ac ymateb brys yn faes allweddol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a nodwyd fel rhan o benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i symud tuag at ddull rheoli risg. Rôl allweddol Grŵp Llifogydd Cymru, sef is-grŵp o Fforwm Cymru Gydnerth, yw dal, cefnogi a monitro gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'n partneriaid sy'n ymwneud â materion gwrthsefyll llifogydd yng Nghymru, y mae llawer ohonynt yn aelodau o'r grŵp.

Mae rhaglen Grŵp Llifogydd Cymru ar gyfer 2010/11 yn cynnwys camau gweithredu sy'n sicrhau bod ein cynlluniau brys yn galluogi ymateb cydlynol a chyson i lifogydd, bod y cynlluniau wedi'u hymarfer a bod staff wedi cael eu hyfforddi'n briodol a bod trefniadau effeithiol ar gyfer ymateb brys ac achub ac adfer mewn llifogydd. Ym mis Mawrth 2011 byddwn yn cymryd rhan mewn ymarfer argyfwng llifogydd cenedlaethol ledled Cymru a Lloegr. Rheolir yr ymarfer gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae fy swyddogion yn rhan o'r trefniadau cynllunio.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio ochr yn ochr â'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol gan ddefnyddio ei brofiad a'i wybodaeth i ddatblygu rhaglen a fydd yn cynyddu gallu cymunedau i wrthsefyll llifogydd drwy godi ymwybyddiaeth o lifogydd.

Dengys y fenter hon weithio rhwng sefydliadau a fu'n un o themâu sylfaenol Adolygiad Pitt. Rwyf yn ystyried ymestyn ymwneud y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol yng Nghymru a fydd yn galluogi ein cymunedau sy'n wynebu risg i gael y cymorth, yr arbenigedd a'r wybodaeth wrth law a fydd yn eu helpu i wrthsefyll llifogydd yn well.

Nodais bryderon y Pwyllgor ynglŷn â'r defnydd o sachau tywod fel opsiwn ymateb. Yn dilyn llifogydd 2007 paratowyd taflen gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgrifio'r ffordd orau o ddefnyddio sachau tywod a chafodd ei chyhoeddi ar ei gwefan yn ogystal â'i hyrwyddo i awdurdodau lleol a fforymau cydnerth lleol. Fodd bynnag, nid dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o amddiffyn eiddo rhag llifogydd ac felly mae canllawiau wedi cael eu paratoi yn amlinellu dulliau amddiffyn mwy dibynadwy. Mae'r Asiantaeth hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ychwanegol ar fesurau hunangymorth i ddiogelu cartrefi i ddeiliaid tŷ, busnesau a chontractwyr adeiladu.

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd costau manwl yn dibynnu ar yr opsiynau a nodwyd, ond bydd y rhain yn rhan o becyn ehangach o fesurau presennol a chaiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**7. bod *y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr* yn cael ei ddiwygio i osod dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth Tân ac Achub a rhoi'r adnoddau angenrheidiol iddo achub pobl o lifogydd.**

**Ymateb: Gwrthod**

Trafodais gynnwys darpariaeth am y mater hwn yn y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ystod gwanwyn 2009. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi'i chynnwys mewn trafodaethau am y mater hwn ar lefel y DU.

Er i benderfyniad gael ei wneud i beidio â gosod y ddyletswydd ar y pryd, roeddwn yn fodlon iawn ar benderfyniad y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ddyfarnu £500,000 i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru er mwyn gwella ei adnoddau achub mewn llifogydd i ymdrin ag amrywiaeth o achosion brys.

Bydd yr arian hwn yn galluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub i ymateb i alwadau am gymorth yn ystod llifogydd neu pan fydd angen achub pobl rhag dŵr, mewn ffordd fwy cydgysylltiedig a chadarn, gan wneud y defnydd gorau o bersonél, cyfarpar a hyfforddiant a roddwyd.

Trosglwyddwyd y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr o Dŷ'r Cyffredin i Dŷ'r Arglwyddi ar 3 Chwefror 2010. Bwriedir iddo ddechrau ar gyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 17 Mawrth. Nid oes dyddiadau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod y pwyllgor na'r trydydd darlleniad ac felly prin yw'r cyfleoedd i gynnig gwelliannau i'r Mesur.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth mewn perthynas â rheoli llifogydd a dŵr fel y caniatâ amser seneddol. Trafodaf y mater hwn ymhellach gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd am fod yr argymhelliad yn cael ei wrthod.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**8. bod Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdodau Lleol, yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i sefydlu Fforwm Llifogydd i Gymru, yn debyg i'r model yn yr Alban.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel yr amlinellais uchod, rydym eisoes yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol ac rydym wedi bod yn monitro'r sefyllfa o ran Fforwm Llifogydd yr Alban yn fanwl.

Mae angen gwerthuso'r cysylltiadau posibl rhwng rolau a sefydliadau yn briodol er mwyn cael y budd mwyaf o Fforwm Llifogydd posibl i Gymru ac rydym yn ymchwilio i ffyrdd o wella'r posibilrwydd o ymestyn hyn ymhellach

**Goblygiadau Ariannol:** Bydd costau cymharol fach o bosibl ac mae'r rhain yn cael eu cadarnhau fel rhan o'r drafodaeth am y ffordd ymlaen. Byddai unrhyw fentrau newydd yn cael eu hariannu o'r cyllidebau presennol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**9. bod Llywodraeth y Cynulliad yn cydlynu'r gwaith o ddatblygu gwefan a phecyn gwybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth am ymdrin â llifogydd, y bobl orau i gysylltu â hwy, ardaloedd lle ceir perygl llifogydd a gwybodaeth berthnasol arall mewn fformat hawdd ei ddarllen a'i ddefnyddio i gyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Gallai hyn ddilyn model gwefan Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban.**

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Er fy mod yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn, rwyf yn pryderu y gallai dehongliad llythrennol arwain at ddyblygu diangen gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae cyfoeth o wybodaeth eisoes ar gael i'r rhai sy'n wynebu perygl llifogydd. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd adran o'r enw 'Paratoi ar gyfer Llifogydd' lle gall aelodau o'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth am y perygl llifogydd a wynebant a chyngor ynglŷn â sut i baratoi cynllun llifogydd i'w teulu.

Yn hytrach na sefydlu gwefan newydd sy'n cynnwys yr un wybodaeth, credaf y dylem ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth sydd eisoes ar gael a'i hategu lle y bo angen.

Rwyf yn trafod dichonoldeb cael un pwynt cyswllt ar gyfer gwybodaeth a chyngor ar berygl llifogydd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chredaf fod y wefan hon a'r dasg o ymhelaethu ar wybodaeth yn gysylltiedig â'r gwaith hwnnw.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim costau ychwanegol. Byddwn yn gweithredu hyn fel rhan o raglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**10. bod wythnos ymwybyddiaeth o lifogydd yn cael ei threfnu yng Nghymru a fyddai'n tynnu sylw pobl at yr hyn y mae angen iddynt ei wneud yn ystod llifogydd ac yn pwysleisio'r angen am baratoi.**

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Mae codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd yn hollbwysig. Ar ddiwedd 2009 rhoddais y dasg o gydlynu cynllun gweithredu ar gyfer codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ledled Cymru i Grŵp Llifogydd Cymru ac rwyf yn falch o nodi bod y gwaith ar y cynllun hwnnw ar fin cael ei gwblhau.

Bwriadaf gysylltu'r gwaith o roi'r cynllun gweithredu ar gyfer codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ar waith gyda'r gwaith ar y Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. Yn y gwaith hwnnw rydym wedi ystyried yr angen am gynnal digwyddiad megis wythnos ymwybyddiaeth o lifogydd ac mae hyn yn rhywbeth rydym yn ei ystyried ar y cyd â'r awdurdodau rheoli risg.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes wedi dechrau gwaith ar strategaeth codi ymwybyddiaeth ar raddfa fawr gyda'r nod o greu rhaglen o fentrau wedi'u targedu at gymunedau a phobl sy'n wynebu perygl llifogydd a fydd yn mynd rhagddi'n gyson dros y tymor hwy. Cyn penderfynu'n derfynol ar gynnal 'wythnos llifogydd' byddem am fod yn sicr ei bod yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth. Bydd codi ymwybyddiaeth hefyd yn rhan sylweddol o'm strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd, ond byddai angen ystyried hyn ymhellach pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**11. bod y Gweinidog yn datblygu cynllun ac yn rhoi arian i helpu'r rhai sy'n wynebu'r perygl llifogydd mwyaf i gymryd y camau angenrheidiol i gyfarparu eu tai er mwyn iddynt allu gwrthsefyll llifogydd yn well, yn debyg i'r cynllun sydd ar waith yn Lloegr.**

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn treialu cynllun grant sydd wedi'i anelu at helpu perchnogion tai unigol i ddiogelu eu heiddo rhag llifogydd ers dwy flynedd. Mae grant o 85% ar gael i berchnogion tai drwy awdurdodau lleol.

Bwriedir adolygu'r cynllun peilot yn 2010/11. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynglŷn â'r opsiynau, gan gynnwys y cynllun sydd ar waith. Bwriadaf ail-lansio cynllun gwell os oes digon o dystiolaeth o'r angen i leihau canlyniadau llifogydd ac o lwyddiant wrth wneud hynny.

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol ynglŷn â llifogydd yn caniatáu rhoi arian i ddiogelu eiddo rhag llifogydd ond nid yw'n darparu pwerau i ariannu gwaith i sicrhau bod eiddo yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn well. Rydym wedi cynnwys cymal yn y Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr sy'n diwygio gofynion rheoliadau adeiladu i gynnwys gwaith i wella gallu eiddo i wrthsefyll achosion o lifogydd. Mae hwn yn newid pwysig iawn.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**12. bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda Chynghorau Cymuned a Fforymau Cymru Gydnerth Lleol i ddatblygu strategaeth i nodi unigolion sy'n agored i niwed mewn cymunedau.**

**13. bod y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn paratoi canllawiau i bob ysgol yng Nghymru ynglŷn â datblygu cynllun llifogydd a chodi ymwybyddiaeth disgyblion o berygl llifogydd.**

**14. bod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn datblygu canllawiau i fusnesau ynglŷn â datblygu cynlluniau llifogydd a chodi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd.**

**15. bod y Gweinidogion sy'n gyfrifol am waith Llywodraeth Leol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu cynlluniau llifogydd ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed megis cleifion mewn ysbytai a phreswylwyr cartrefi gofal.**

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Mae'r gwaith o nodi unigolion sy'n agored i niwed a pharatoi cynlluniau llifogydd i sicrhau bod cymunedau a grwpiau mewn perygl yn ymwybodol o'r hyn y dylid ei wneud yn ystod llifogydd yn bwysig iawn. Mae ein gwasanaethau brys eisoes yn ymwybodol o seilwaith lleol allweddol lle ceir pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys ysbytai a chartrefi gofal. Fodd bynnag, mae angen i'r wybodaeth hon gael ei diweddaru'n barhaus a'i rhannu gyda'r sefydliadau perthnasol er mwyn i ni sicrhau bod mesurau priodol ar waith.

Mae'r argymhelliad ynglŷn â'r pwynt hwn yn tynnu sylw at rolau Prif Weinidog Cymru, Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ac rwyf wedi ysgrifennu atynt yn hyn o beth. Rwyf hefyd yn ymwybodol y bydd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiddordeb yn y mater hwn. Fodd bynnag, mae'r gwaith dan sylw yn mynd ymhellach na'r Gweinidogion, neu, yn wir, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er mwyn gweithredu'r argymhellion hyn bydd angen i ni gael cydweithrediad yr awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal ac ysgolion. Mae rheoli perygl llifogydd yn eitem sefydlog ar agenda Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes yn cyhoeddi gwybodaeth i fusnesau yn ei thaflen '*A guide to preparing your business for flooding'*, sydd ar gael yn http://publications.environment-agency.gov.uk/pdf/GENE0408BNYL-e-e.pdf

Fi yw'r Gweinidog sy'n arwain y gwaith o ddatblygu polisi yn y maes hwn ac rwyf wedi cytuno â'n cyd-Weinidogion y byddant yn rhoi cymorth i sicrhau yr ymdrinnir â'r argymhellion hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol a phriodol, o ystyried ein priod gyfrifoldebau. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gydgysylltu â'u cyd-swyddogion yn yr adrannau perthnasol o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn cydweithio i godi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ledled Cymru o fewn ein meysydd portffolio a'r sectorau rydym yn gyfrifol amdanynt, ac yn gweithio gyda sefydliadau yn y sectorau hynny i benderfynu beth sydd angen ei wneud i sicrhau eu bod yn barod.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach wrth i fanylion unrhyw waith ychwanegol gael eu cwmpasu. Bydd yn rhaid i'r rhain gael eu hystyried mewn trafodaeth â chyd-aelodau o'r Cabinet.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**16. bod TAN15 yn cael ei ailddrafftio i sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei adlewyrchu'n well drwy ragdybiaeth yn erbyn adeiladu ar orlifdir a bod y gofyniad ar gyfer asesiadau stratregol o ganlyniadau llifogydd yn cael ei ymgorffori mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae TAN15 eisoes yn hyrwyddo dull gweithredu hierarchaidd sy'n nodi'n glir y dylai datblygiadau newydd gael eu hadeiladu y tu allan i ardaloedd lle ceir perygl llifogydd lle y bo modd ond y gellir caniatáu rhai datblygiadau o dan amgylchiadau eithriadol.

Mae TAN 15 ei gwneud yn glir sut y dylai awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ynglŷn â datblygiadau ar orlifdiroedd, gan gynnig profion clir o gyfiawnhad a derbynioldeb canlyniadau llifogydd, a'i gwneud yn bosibl i ystyried peryglon dros oes y datblygiad newydd.

Ers i TAN15 gael ei gyflwyno yn 2004 mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o berygl llifogydd wedi gwella'n sylweddol. Yn 2005/2006 gwnaed 16% o benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau cynllunio (lle nodwyd perygl llifogydd) yn erbyn cyngor Asiantaeth yr Amgylchedd/TAN15. Yn 2007/2008 3% oedd y ffigur. Yn 2008/2009 gwrthwynebodd Asiantaeth yr Amgylchedd dros 650 o geisiadau cynllunio yng Nghymru am beidio â chydymffurfio â gofynion TAN15.

Mae TAN15 yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ddefnyddio'r Mapiau Cyngor Datblygu i gadarnhau a yw perygl llifogydd yn fater strategol, ac os oes angen, gynnal asesiadau cyffredinol o ganlyniadau llifogydd i ategu'r dosbarthiadau o ddefnydd tir mewn cynlluniau datblygu.

Rwyf yn falch o nodi bod 17 o Awdurdodau Cynllunio Lleol eisoes wedi cynnal neu wedi comisiynu Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd mewn perthynas â'r Cynlluniau Datblygu Lleol diweddaraf. Disgwylir i'r 8 awdurdod arall gynnal asesiadau o'r fath ar yr adeg briodol.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gwrthodir yr argymhelliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**17. bod yr ail genhedlaeth o Fapiau Cyngor Datblygu yn cael eu diweddaru'n flynyddol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu yn rhan o bolisi cenedlaethol er mwyn sicrhau y caiff perygl llifogydd ei ystyried ar gam cynnar ac mewn ffordd dryloyw fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu yn dangos lle mae angen gwahanol lefelau o asesiadau o ganlyniadau perygl llifogydd. Er eu bod yn cynnwys gwybodaeth o fapiau llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd, maent hefyd yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill at y diben hwn.

Mae angen rhoi rhywfaint o sicrwydd i Awdurdodau Cynllunio, Datblygwyr a'r Cyhoedd er mwyn paratoi cynlluniau, a rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio mewn modd amserol. Felly mae angen i Fapiau Datblygu Cyngor gael eu pennu am gyfnod hwy yn hytrach na chael eu diweddaru'n flynyddol.

Disgwyliaf i Asiantaeth yr Amgylchedd ddefnyddio ei gwybodaeth ei hun am raddfa llifogydd, ac am ddyfnder a chyflymder llifogydd lle mae hynny ar gael er mwyn rhoi cyngor technegol manylach ynglŷn â'r perygl llifogydd a achosir gan gynlluniau a chynigion.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gwrthodir yr argymhelliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**18. bod gofyniad yn cael ei osod ar Awdurdodau Lleol i ymgynghori â'u hawdurdodau cyfagos pan gaiff ceisiadau am ddatblygiadau a allai effeithio ar lefelau llifogydd/afonydd mewn awdurdod cyfagos eu hystyried.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN15 yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori ag awdurdodau cyfagos wrth ystyried perygl llifogydd mewn perthynas â pharatoi polisïau defnydd tir.

Fodd bynnag, wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol dylai Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd ategol ddangos effeithiau'r cynnig ar lifogydd mewn mannau eraill. Ni ddylid rhoi caniatâd lle y bydd effeithiau andwyol mewn mannau eraill er mwyn cydymffurfio â phrofion derbynioldeb TAN15. Credaf felly y dylem ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad hwn, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i ymgynghori'n ychwanegol.

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r awdurdod priodol i ystyried llifogydd afonydd a llanw ar sail dalgylch a rhoi cyngor i Awdurdodau Lleol ynghylch a yw'r perygl gweddilliol mewn Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd yn cydymffurfio â meini prawf TAN15.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gwrthodir yr argymhelliad.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**19. bod Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu nifer o wardeiniaid llifogydd cymunedol ledled Cymru ar sail prawf. Byddant yn gyfrifol am waith cynnal a chadw ac am gyfleu rhybuddion a gwybodaeth am berygl llifogydd. Gallai'r swydd hon hefyd helpu i nodi pobl sy'n agored i niwed yn ystod llifogydd, a helpu i godi ymwybyddiaeth o lifogydd yn y gymuned.**

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Fel y nodais mewn rhan arall o'r ymateb hwn, rwyf yn ymwybodol o bwysigrwydd ymgysylltu a gwybodaeth leol. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn defnyddio'r holl gyfoeth o brofiad ac arbenigedd mewn perthynas â pherygl llifogydd ledled Cymru a bod cymunedau yn cymryd rhan mewn penderfyniadau lleol.

Rwyf yn pryderu y gallai'r defnydd o aelodau o'r cyhoedd nad ydynt wedi cael hyfforddiant i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw arwain at ddamweiniau. Mae'n rhaid i ni gofio mai perygl gwirioneddol bach iawn sydd dan sylw. Mae'n drist o beth bod sawl un o'r bobl a fu farw yn ystod llifogydd 2007 wedi cael ei ladd wrth geisio clirio cwlfertau a chael gwared ar lifogydd mewn eiddo dan ddŵr ac mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei osgoi ar bob cyfrif. Rwyf yn ymwybodol hefyd y gall newidiadau bach ac anfwriadol yn aml mewn un ardal effeithio ar y perygl llifogydd mewn ardal arall yn fawr iawn; sef rhywbeth y mae'r adroddiad hwn yn ei gydnabod. Mae perygl newidiadau o'r fath yn cynyddu'n sylweddol pan gaiff newidiadau eu gwneud heb gyngor technegol.

Fodd bynnag gall grwpiau cymunedol lleol chwarae rhan bwysig o ran rheoli'r perygl llifogydd sy'n effeithio arnynt. Mae cyfathrebu ag awdurdodau gweithredol yn ystod llifogydd, codi ymwybyddiaeth, a hunangymorth yn feysydd lle gall grwpiau cymunedol helpu. Mae fy swyddogion yn ystyried ar y cyd â'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol a'r awdurdodau gweithredol yn ystod llifogydd, sut y gall grwpiau llifogydd lleol helpu a sut y gallent gael eu sefydlu, ac efallai y bydd rôl yn hyn o beth i unigolyn yn ymwneud yn benodol â rhannu gwybodaeth am berygl llifogydd. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried yr opsiwn hwn.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**20. bod Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi canllawiau i berchnogion afonydd sy'n nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir.**

**Ymateb: Derbyn yn rhannol**

Derbyniaf yr egwyddor sy'n sail i'r argymhelliad hwn ond rwyf yn pryderu y gallai arwain at ddyblygu gwaith pe bai'n cael ei weithredu'n llythrennol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes yn cyhoeddi taflen wybodaeth sydd wedi'i hanelu at berchnogion afonydd. Mae'r daflen, o'r enw 'Living on the Edge', yn cynnig canllaw ar hawliau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n byw ar lan afon.

Mae'r canllaw yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i berchnogion afonydd gynnal a chadw gwely a glannau'r cwrs dŵr, a'r coed a'r prysg sy'n tyfu ar y glannau, gan glirio unrhyw weddillion, hyd yn oed os nad oeddent yn deillio o'u tir eu hunain. Er y gall perchnogion afonydd ddiogelu eu heiddo rhag llifogydd, mae'n rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd gytuno ar eu cynlluniau ac mae'n rhaid iddynt beidio ag effeithio ar lif y dŵr. Ni chaniateir iddynt achosi unrhyw rwystrau – boed yn rhai dros dro neu barhaol.

Mae'r daflen hon ar gael ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd a byddaf yn trafod sut y gellir ei dosbarthu ymhellach fel rhan o'n cynllun gweithredu ar gyfer codi ymwybyddiaeth gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**21. bod Awdurdodau Lleol yn nodi'r cyrsiau dŵr lle ceir perygl llifogydd mawr ac yn sicrhau bod perchnogion afonydd yn cynnal a chadw'r afon a'r glannau i'r safonau gofynnol.**

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Yn y misoedd sydd i ddod bydd awdurdodau lleol yn cwblhau asesiadau cychwynnol o berygl llifogydd ar gyfer eu hardaloedd fel rhan o'r gwaith sy'n ofynnol o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Gwnaeth y Rheoliadau hyn, sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, drosi Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE a rhannu'r cyfrifoldeb am weithredu'r Gyfarwyddeb rhwng awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n arwain y gwaith o baratoi asesiadau, mapiau a chynlluniau mewn perthynas â llifogydd o'r môr, prif afonydd a chronfeydd dŵr. Awdurdodau lleol sy'n arwain y gwaith o baratoi'r un ddogfennaeth ar gyfer y risgiau eraill a rhan o'r gwaith o baratoi'r asesiadau cychwynnol a fydd yn cynnwys nodi ardaloedd lle ceir perygl llifogydd penodol a tharddiad y peryglon hynny. Ar ôl iddynt gael eu nodi, yna gall awdurdodau rheoli risg gymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â hwy.

Rwyf wedi ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn tynnu ei sylw at yr argymhelliad hwn. Mae rheoli perygl llifogydd yn dod yn gynyddol bwysig i awdurdodau lleol ledled Cymru a byddaf yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon a'r dulliau rheoli ac i benderfynu ar y ffordd orau o fuddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd ar lawr gwlad.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach. Bydd angen trafod hyn gyda'r awdurdodau lleol yng Nghymru fel y cyrff cyfrifol.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**22. bod Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r seilwaith allweddol yng Nghymru, ac yn chwarae rôl gydlynu er mwyn sicrhau bod gan y sefydliadau perthnasol gynlluniau llifogydd cyfredol. Dylai hyn helpu i roi trosolwg strategol o'r cynlluniau. Mae'r Pwyllgor yn argymell y caiff hyn ei adolygu'n flynyddol.**

**Ymateb: Derbyn**

Yn sgîl llifogydd 2007 cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymarfer i fapio seilwaith allweddol pwysig lle ceir perygl llifogydd yng Nghymru a rhannwyd y wybodaeth hon gyda'r awdurdodau gweithredol perthnasol. Mae'r ymarfer hwn yn cael ei ymestyn a dylai fod ar gael cyn hir i awdurdodau lleol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wrthi'n datblygu cronfa ddata fwy cynhwysfawr a fydd yn cynnwys y wybodaeth hon ynghyd â derbynyddion perygl llifogydd eraill. Byddwn yn sicrhau y caiff y gronfa ddata hon ei rhannu mor eang â phosibl fel rhan o'n nod o sicrhau bod partneriaid proffesiynol yn ymwybodol o'r risgiau dan sylw ac i hwyluso gwelliannau yn y ffordd y caiff ein gwasanaethau hanfodol eu rheoli a'u darparu.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**23. bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod lefel gyson o ddiogelwch wedi cael ei rhoi i strwythurau allweddol ledled y DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gweithio gyda'r Tîm Peryglon Naturiol yn Swyddfa'r Cabinet i edrych ar wella gallu gwasanaethau hanfodol i wrthsefyll tarfu mawr arnynt oherwydd llifogydd. Mae hyn yn golygu gweithio gyda gweithredwyr seilwaith i ddatblygu Cynlluniau Cydnerthu i Sectorau. Bydd y cynlluniau hyn yn galluogi'r llywodraeth i ddeall pa mor wan a pha mor gadarn yw'r sectorau seilwaith a'r rhaglen o fesurau neu gamau i'w cymryd i wella eu gallu i wrthsefyll llifogydd lle y bo angen ynghyd â'u costau a'u heffeithiau.

Bydd y gwaith gyda'r Tîm Peryglon Naturiol hefyd yn pennu'r mesurau sydd eu hangen i gynnal a chadw gwasanaethau hanfodol i strwythurau allweddol ledled Cymru.

Bydd Grŵp Llifogydd Cymru yn sicrhau y caiff gwybodaeth am berygl llifogydd ei rhannu'n eang ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am seilwaith o'r fath.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Daw unrhyw gostau o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**24. bod Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i sicrhau, erbyn diwedd 2010, gyfleoedd i berchnogion y cartrefi hynny lle ceir perygl llifogydd mawr ac sydd wedi cymryd camau i leihau'r perygl hwnnw, ond sy'n gorfod talu taliadau dros ben a phremiymau mawr, i gael gafael ar yswiriant fforddiadwy.**

**25. bod Llywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda'r diwydiant yswiriant i sicrhau bod y wybodaeth a ddefnyddir gan y cwmnïau i farnu perygl llifogydd yn gynrychioliadol o natur y perygl llifogydd yn yr ardal leol.**

**26. bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod pob cartref mewn ardal lle ceir perygl llifogydd yn cael cyngor ar gamau gweithredu posibl y gellir eu cymryd er mwyn lleihau'r perygl llifogydd ac yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol am y broses o wneud hawliad yswiriant oherwydd llifogydd os oes angen.**

**Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor**

Rwyf yn ymwybodol bod trefnu yswiriant rhag perygl llifogydd yn fater emosiynol iawn. I'r rhai na allant gael yswiriant neu'r rhai na allant fforddio'r premiymau, mae'n achosi cryn rwystredigaeth a siom.

Ym mis Mehefin 2009 ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gytundeb â'r diwydiant yswiriant, a gynrychiolwyd gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain. Mae'r Datganiad o Egwyddorion hwnnw yn nodi rhai camau gweithredu penodol i'r Llywodraeth a'r yswirwyr yn y maes hwn ac wedi sicrhau bod yswiriant ar gael o hyd i'r rhan fwyaf o bobl sy'n wynebu perygl llifogydd yng Nghymru. Fodd bynnag rwyf yn cydnabod na all pawb gael yswiriant ac nad yw'r Datganiad o Egwyddorion yn ei warantu i bawb.

Parhawn i drafod y mater hwn gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain ac rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn hefyd. O ganlyniad i sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr mae Llywodraeth y DU yn cynnull cyfarfod ar gyfer sefydliadau ledled Cymru a Lloegr sydd â diddordeb yn y mater hwn er mwyn ceisio datrys rhai o'r materion, a chaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei chynnwys yn y trafodaethau hynny ac unrhyw benderfyniadau.

Mae'r defnydd cywir o fapiau llifogydd i benderfynu ar berygl llifogydd yn achosi peth pryder a byddwn yn codi'r mater hwn gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain.

Rwyf eisoes wedi cyfeirio at fy nghynllun gweithredu ar gyfer codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd mewn cymunedau ledled Cymru. Credaf fod hyn yn gysylltiedig ag argymhellion 1 a 9, sy'n cyfeirio at sefydlu siop un stop am wybodaeth a chyngor ar berygl llifogydd a gwefan benodol. Rwyf eisoes wedi cytuno i'w hystyried a byddaf yn gweithredu ar hyn fel rhan o'r gwaith hwn.

Credaf hefyd fod yr elfen o'r gwasanaeth a ddarperir gan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol sy'n rhoi cyngor yn hollbwysig o ran cynorthwyo'r perchnogion hynny sy'n cael problemau o ran yswiriant a dyma un rheswm pam rwyf yn awyddus i ymestyn y gwasanaeth i bob rhan o Gymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Ni nodwyd dim ar hyn o bryd, ond bydd angen ystyried hyn ymhellach wrth i'r gwaith ddatblygu.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**27. bod gwybodaeth ynghylch a yw eiddo yn debygol o fynd dan ddŵr yn cael ei chynnwys yn y Pecynnau Gwybodaeth am Eiddo ar gyfer pob tŷ a brynir yng Nghymru.**

**Ymateb: Gwrthod**

Nid yw'r ddeddfwriaeth ar Becynnau Gwybodaeth am Eiddo wedi'i datganoli.

Mae gwybodaeth am berygl llifogydd eisoes wedi'i chynnwys yn yr Holiadur Gwybodaeth am Eiddo sy'n un o ofynion Pecynnau Gwybodaeth am Eiddo. Mae hyn yn gymwys ledled Cymru a Lloegr.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Nid yw hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli.

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

**28. y dylai fod yn ofynnol i unrhyw awdurdod sy'n rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd yn erbyn cyngor asesiad strategol o ganlyniadau llifogydd, drefnu polisi indemniad rhag llifogydd yn y datblygiadau hyn yn y dyfodol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Wrth benderfynu ar geisiadau mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio ystyried nifer fawr o faterion ar seiliau cynllunio a dod i farn gytbwys mewn perthynas â manteision ac effeithiau andwyol y datblygiad.

Nid yw annog Polisïau Indemniad lle mae datblygiad yn groes i bolisi yn rhywbeth y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gefnogi. Wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio dylai ceiswyr ddangos drwy Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer safle penodol fod eu datblygiad yn dderbyniol yn ychwanegol at unrhyw Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a wneir

gan Awdurdod Lleol. Os mynnir indemniad gall hynny arwain at ddatblygiadau mwy annerbyniol yn cael eu cyflwyno yn hytrach na'u hatal.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Gwrthodir yr argymhelliad.